Proffil Rôl a Manyleb Rôl

Mae Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn cyflawni rôl bwysig cyfaill beirniadol ar gyfer yr Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd. Fforwm ydyw lle mae ymgynghorwyr annibynnol yn rhoi cyngor annibynnol ynghylch materion arbenigol a godir gan yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd.

Nid yw craffu yn un o rolau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, yn hytrach mae yno i warchod pob un o'n cymunedau rhag dioddef anfantais yn sgil diffyg dealltwriaeth, neu anwybodaeth neu gred gamsyniol.

Mae cyfle cyffrous wedi codi i chi ddod yn aelod annibynnol o Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Dyfed-Powys. Rydyn ni'n edrych am aelodaeth sy'n cynrychioli'n fras y cymunedau rydyn ni'n gwasanaethu o ran oed, anabledd, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, crefydd, cred a chyfeiriadedd rhywiol.

Proffil Rôl:

Fel aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, bydd eich barn yn helpu Heddlu Dyfed-Powys a SCHTh i lunio darpariaeth y gwasanaeth heddlu ac yn helpu i adeiladu perthnasau cryfach gyda chymunedau amrywiol. Byddwch chi'n cytuno i:

- Gymryd rhan mewn cyfarfodydd chwarterol fel aelod o'r grŵp;
- Rhoi cyngor annibynnol i'r Heddlu a SCHTh ynglŷn â materion penodol a nodwyd ganddyn nhw neu aelodau eraill o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol;
- Rhoi arweiniad a mewnwelediad neu her adeiladol sy'n adlewyrchu'ch persbectif chi fel aelod o'r gymuned;
- Rhoi cyngor annibynnol i'r Heddlu ar faterion sydd o bosibl yn effeithio ar yr ardal blismona, gan gynnwys polisïau, arferion, gweithdrefnau neu ddigwyddiadau mawr;
- Gweithredu fel Ymgynghorydd Digwyddiadau Mawr ar gyfer yr Heddlu a SCHTh yn ôl yr angen (nid yw'n ofyniad hanfodol);
- Cynnal perthynas waith dda gydag aelodau eraill o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, SCHTh, personél Heddlu Dyfed-Powys ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb; ac
- O bosibl, ymgymryd ag amrywiaeth ehangach o rolau craffu e.e. eistedd ar y Panel Craffu ar y Broses Stopio a Chwilio.

Manyleb Rôl:

Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer rôl aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fodloni'r meini prawf canlynol:

- Ni chânt fod yn swyddog neu staff heddlu presennol, na chyn swyddog neu staff heddlu ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys neu SCHTh, neu unrhyw wasanaeth heddlu neu SCHTh arall;
- Rhaid eu bod yn byw yn ardal Heddlu Dyfed-Powys dros dro neu'n barhaol, neu â chysylltiad â'r ardal;
- Rhaid eu bod yn barod i fynychu cyfarfodydd o fewn ardal Dyfed-Powys;
- Rhaid iddynt dderbyn cliriad fetio yn dilyn y cam cyfweliad. Ni fydd euogfarnau troseddol o reidrwydd yn arwain at wrthod cliriad fetio; ystyrir pob cais ar sail achos wrth achos;
- Rhaid eich bod chi'n barod i roi amser, egni ac ymrwymiad i fynychu;
- Rhaid eich bod chi wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae gwasanaethau plismona'n cael eu cyflenwi;
- Rhaid eich bod chi'n barod i weithio'n adeiladol gyda'r Heddlu, SCHTh ac aelodau eraill o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol;
- Rhaid i chi arddangos y gallu i wrando ac ystyried barn eraill a thrin pawb â thegwch a pharch;
- Rhaid i chi osgoi rhagfarn a gwahaniaethu ac arddangos ymroddiad tuag at gydraddoldeb cyfle;
- Rhaid eich bod chi'n medru arddangos cysylltiadau cryf â chymunedau penodol yn yr ardal blismona;
- Rhaid eich bod chi'n medru ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol yn briodol;
- Rhaid i chi arddangos y gallu i

Os ydych chi'n credu'ch bod chi'n medru gwneud gwahaniaeth i blismona yn Nyfed-Powys, galwch heibio i www.dyfed-powys.police.uk a lawrlwythwch ffurflen gais heddiw. Fel arall, cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar equalityanddiversity@dyfed-powys.pnn.police.uk neu 07970831460

Gellir darparu'r pecyn hwn mewn gwahanol fformatau gan gynnwys print bras, Braille, sain, a thrwy e-bost. Cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar equalityanddiversity@dyfed-powys.pnn.police.uk neu 07970831460